Cyswllt Amgylchedd Cymru | Wales Environment Link

Cynllun Gweithredu Amrywiaeth y Cyswllt

Gorffennaf 2021

Cynnwys

Cyflwyniad 2
Rheolaeth Drefnwriaethol y Cyswllt 3
Polisïau staff ac Adnoddau Dynol 3
Recriwtio Staff 3
Recriwtio ar gyfer y Bwrdd 4
Cyfathrebu a gwefan y Cyswllt 5
Hyfforddiant TG a chyfathrebiadau 6
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd yn Rhwydwaith y Cyswllt 6
Rhannu gwybodaeth ac ymarfer gorau 6
Hyfforddiant 7
Creu perthnasau gyda chymunedau 7
Crynodeb o Weithrediadau a Cherrig Milltir 9

Cyflwyniad

Mae mudiadau megis #BlackLivesMatter, #BlackinNature a #CharitySoWhite wedi ysgogi Cyrff Anllywodraethol amgylcheddol (CAa) i ystyried rhai cwestiynau difrifol, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ymysg y cwestiynau allweddol mae:

- Pam fod ein sector mor ddiffygiol o ran amrywiaeth ethnig?
- Pam nad ydy ein polisïau presennol wedi arwain at gynnydd yn yr amrywiaeth ledled llawer o'r nodweddion gwarchodedig wrth recriwtio neu wirfoddoli?
- Ydy ein cyrff yn gwneud digon i annog pobl gydag anableddau i gymryd rhan mewn gwaith amgylcheddol a gwirfoddol?
- Ydyn ni'n cynnwys staff, gwirfoddolwyr a chefnogwyr gyda nodweddion gwarchodedig eraill mewn ffyrdd sydd yn wir eu hannog i ymuno â'r mudiad amgylcheddol?

Mae aelodau'r Cyswllt yn sylweddoli bod canlyniadau amgylcheddol gwael yn effeithio fwyaf ar grwpiau lleiafrifol. Mae hyn yn golygu ei fod yn gyfrifoldeb arnom fod yn fwy effeithiol o ran eu cynnwys yn ogystal â sicrhau eu cefnogaeth i fynd i'r afael â phroblemau amgylcheddol. Mae angen i ni ddeall ein gilydd yn well fel corff, ac fel rhwydwaith, a rhagweithio i adnabod a dileu rhwystrau i gymunedau allu gymryd rhan.

Mae'r Cynllun Gweithredu Amrywiaeth hwn yn gam pwysig ar ein taith i ddod yn gorff a rhwydwaith mwy cynhwysol. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar y newidiadau y mae angen i ni eu gwneud. Nid yw'n trafod yr holl faterion a'r cefndir. Cynllun gweithredu ydy o. Rydym wedi nodi gweithrediadau i'r Cyswllt ei hun yn un adran isod a gweithrediadau i rwydwaith y Cyswllt mewn adran arall isod. Bydd yn parhau'n ddogfen fyw ac yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol i sicrhau bod gweithrediadau'n parhau i gael eu cwblhau.

Rheolaeth Drefnwriaethol y Cyswllt

Polisïau staff ac Adnoddau Dynol

Byddwn yn adolygu ein holl bolisïau a'n hymarferion yn ôl sut maen nhw'n effeithio ar wahanol bobl a chymunedau. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys edrych ar yr iaith a ddefnyddir gennym. Ymysg y gweithrediadau allweddol eraill yr ymgymerir â nhw mae:

- datblygu a mabwysiadu polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd penodol ac adlewyrchu hyn yn ein polisïau a'n prosesau eraill;
- datblygu proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb a defnyddio'r broses hon i adolygu ein polisïau a'n hymarferion yn rheolaidd;
- adolygu ein dull hyblyg o weithio a gadael trefniadau fel blaenoriaeth o ran sicrhau eu bod yn gweithio i wahanol gymunedau a phobl;
- adolygu ein polisïau ac ymarferion hyfforddiant a datblygiad staff i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth benodol i'r holl staff a gwirfoddolwyr amrywiol.

Recriwtio Staff

Rydym yn adolygu ein prosesau a'n hymarferion ar gyfer recriwtio.
Ymysg y gweithrediadau allweddol y byddwn yn eu rhoi ar y gweill mae:

- adolygu ein ffurflen fonitro cydraddoldeb i sicrhau ei bod wedi ei diweddaru ac yn briodol a'i bod yn annog pobl i'w chwblhau;
- dadansoddi data pob proses recriwtio staff, gwirfoddolwyr, a'r Bwrdd i adnabod grwpiau nad ydyn nhw'n cael eu cynrychioli'n ddigonol ac ymgymryd â gweithrediadau positif wedi eu targedu i fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth yma;
- adolygu ein ffurflen gais i'w gwneud yn fwy eglur ac yn haws i'w chwblhau;
- adolygu ein holl ddisgrifiadau swydd a manylion unigolion i sicrhau eu bod yn groesawgar, yn hygyrch ac yn gynhwysol; a
- hyrwyddo ein cyfleoedd drwy gyfrwng grwpiau cymunedol sy'n cynrychioli pobl gydag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig a chymunedau eraill sy'n cael profiad o anfantais.

Recriwtio ar gyfer y Bwrdd

Mae Bwrdd Ymddiriedolwyr y Cyswllt wedi ei recriwtio'n bennaf o'n cyrff sy'n aelodau. Mae ein cyfansoddiad yn caniatáu i ni gyfethol hyd at ddau Ymddiriedolwr allanol (Ymddiriedolwyr nad ydyn nhw'n gweithio nac yn gwirfoddoli i gorff sy'n aelod) er mwyn dod â'r arbenigedd angenrheidiol, a all fod yn ddiffygiol, i mewn.

Mae pum aelod ar Fwrdd cyfredol y Cyswllt, gyda dau le gwag ar ôl. Mae pedwar allan o bump o aelodau ein Bwrdd yn fenywaidd ac mae pob un yn wyn. Mae pob aelod o'r Bwrdd dros 40 mlwydd oed. Er bod y Cyswllt yn ystod y ddeng mlynedd ddiwethaf wedi cynnal cydbwysedd o ran y ddau ryw neu (fel y dengys y sefyllfa bresennol) yn Fwrdd sydd ag aelodau benywaidd yn arglwyddiaethu, rydym wedi adnabod dau faes cyfredol allweddol lle mae'n ddiffygiol o ran amrywiaeth: cynrychiolaeth gan grwpiau ethnig lleiafrifol a chynrychiolaeth gan grwpiau oedran iau.

Er y byddem yn disgwyl recriwtio aelod o'r Bwrdd o dan 30 oed o'n haelodaeth, nid ydy galwadau diweddar i'r aelodaeth yn croesawu ceisiadau gan aelodau iau ein rhwydwaith wedi dwyn ffrwyth. Mae recriwtio aelodau bwrdd lleiafrifol ethnig yn debygol o fod yn anodd os na fyddwn yn hysbysebu'r cyfle y tu hwnt i aelodaeth y Cyswllt gan fod staff a gwirfoddolwyr ein haelodau yn Wyn Cymreig neu Brydeinig yn bennaf.

Hoffai'r Cyswllt wella'r amrywiaeth drwyddo draw ar Fwrdd ei Ymddiriedolwyr. Yn benodol, hoffem annog grwpiau oedran iau (o dan 30) a grwpiau ethnig lleiafrifol i gymryd rhan oherwydd mae'r grwpiau hyn wedi eu hadnabod fel bylchau allweddol ar ein Bwrdd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod grwpiau eraill yr hoffem eu hannog i ymuno â'n Bwrdd a byddwn hefyd yn cymryd camau i adnabod y grwpiau hyn.

Mae gennym eisoes ddigon o brofiad ymysg aelodau ein Bwrdd presennol. Mae arnom angen dulliau newydd o feddwl er mwyn sicrhau bod ein rheolaeth, polisïau a dulliau o weithio yn annog pobl o gymunedau mwy amrywiol a phobl iau i gymryd rhan yn y rhwydwaith. Drwy nodi hyn, rydym yn golygu na fydd unrhyw rwystrau diangen o fewn ein prosesau recriwtio a bod ein polisïau yn gwarchod staff a gwirfoddolwyr rhag anffafriaeth ac yn gwneud iddyn nhw deimlo ein bod yn eu gwerthfawrogi ac am eu cynnwys. Rydym hefyd yn dymuno bod ein negeseuon eiriolaeth ac ymgyrchu yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac yn annog cymunedau amrywiol i gymryd fwy o ran mewn gwaith amgylcheddol ac ymgyrchu.

Cyfathrebu a gwefan y Cyswllt

Mae'r Cyswllt yn cyfathrebu ei negeseuon polisi ac eiriolaeth drwy greu datganiadau polisi, briffiau, ymatebion ymgynghori, tystiolaeth Pwyllgor y Senedd, blogiau, Trydar (Twitter) a'n gwefan. Crëwyd a dosbarthwyd y rhan fwyaf o'n cynnwys, hyd yn oed cyn pandemig Covid-19, yn electronig, drwy gyfrwng e-bost, Trydar a'n gwefan.

Ym mis Mawrth 2021 uwchraddiodd y Cyswllt ei wefan o system reoli cynnwys Drupal i safle WordPress cyfoes haws i'w defnyddio, gan roi i ni y gallu i gynnwys maes blog. Mae'r safle newydd yn defnyddio ffontiau mwy a mwy o ofod gwyn a lluniau. Fodd bynnag rydym yn ymwybodol bod gwaith i'w wneud eto i sicrhau bod hyn yn cydymffurfio gyda safonau hygyrchedd cyfoes, felly dyma un maes y byddwn yn ei ddatblygu. Ar gyfer ein gwefan newydd rydym wedi ceisio cynrychioli gwahanol gymunedau sydd wedi cymryd rhan yng ngwaith ein haelodau wrth ddefnyddio lluniau ar ein gwefan. Rydym yn falch o gynnwys lluniau gan ffotograffydd bywyd gwyllt proffesiynol anabl ar ein gwefan. Ein nod yw cynyddu'r cynnwys gan ac ar gyfer pobl a chymunedau amrywiol drwy greu perthnasau gyda'r cymunedau hyn.

Mae llawer o'r papurau a gynhyrchir gennym yn dechnegol ac yn canolbwyntio ar gynulleidfa wleidyddol neu weision sifil. Fodd bynnag, rydym bellach yn ysgrifennu mwy o friffiau byr, hawdd eu darllen sydd â'r ddau bwrpas o gyflenwi gwybodaeth i wleidyddion yn sydyn a chaniatáu i aelodau o'r cyhoedd fynd i'r afael â mater na fydden nhw o bosib yn ei ddeall o safbwynt technegol. Drwy gyfrwng hyfforddiant amrywiaeth ddiweddar rydym wedi sicrhau newidiadau i'r patrymlun Gair (Word) a ddefnyddir gennym i sicrhau ei fod yn fwy hygyrch, ond mae gennym fwy o waith eto i'w wneud yn y maes hwn. Rydym yn bwriadau adolygu'r patrymluniau ar gyfer papurau i weld sut ellir eu gwella a'u gwneud yn fwy hygyrch i bawb. Ein nod hefyd yw darparu hyfforddiant Plain English ar gyfer ein staff a'n haelodau o'r rhwydwaith er mwyn gwella ein medrau ysgrifennu hygyrch.

Rydym yn cydnabod bod ein dilynwyr ar Trydar, a chymunedau sy'n ymwybodol o'n corff neu'n ymweld â'n gwefan, wedi eu cyfyngu'n bennaf i gefnogwyr traddodiadol, gwyn, dosbarth canol o gyrff anllywodraethol amgylcheddol. Hoffem roi ymarfer mapio rhanddalwyr ar waith i ddeall pa grwpiau y gallwn gysylltu â nhw a'u cynnwys yn ein gwaith cyfathrebu drwy eu dilyn ar Trydar neu eu gwahodd i baratoi blog gwestai ar gyfer ein gwefan neu, yn wir, gynnal blog aelod o'r Cyswllt ar eu safle eu hunain.

Hyfforddiant TG a chyfathrebiadau

Rydym wedi darganfod bod cymwysiadau Microsoft 365, a chymwysiadau eraill a ddefnyddir gennym fel Zoom, yn cynnwys cyfoeth o swyddogaethau hygyrchedd nad ydym yn llwyr ymwybodol ohonyn nhw. Byddwn yn darparu staff gyda hyfforddiant ar yr arfau hyn er mwyn gwneud yn fawr o swyddogaethau ein cymwysiadau TG wrth wella hygyrchedd.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd yn Rhwydwaith y Cyswllt

Rhannu gwybodaeth ac ymarfer gorau

Bydd y Cyswllt yn cynnal grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd a arweinir gan aelodau i alluogi aelodau i rannu profiadau a gwybodaeth, a dysgu oddi wrth ei gilydd. Gellir cynnal y grŵp hwn yn fisol, bob dau fis neu bob chwarter, yn dibynnu ar allu aelodau i gymryd rhan. Fe all y grŵp:

- fonitro a sicrhau gweithredu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth y Cyswllt;
- wahodd siaradwyr rheolaidd ar agweddau o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd;
- rannu gwybodaeth am eu rhaglenni a'u projectau eu hunain;
- helpu i adnabod anghenion hyfforddiant a datblygiad parhaus ar gyfer y rhwydwaith; a
- chydweithio gyda grwpiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd o fewn y Cyswllt Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, Cyswllt Amgylchedd Yr Alban a Chyswllt Amgylchedd Gogledd Iwerddon.

Hyfforddiant

Rydym yn ymwybodol bod anghenion hyfforddiant a datblygiad parhaus yn bodoli ledled y rhwydwaith. Mae cyrff ar wahanol gyfnodau o gynnydd o ran gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd, ond maen nhw i gyd yn cydnabod bod angen datblygiad a gwelliant parhaus. Mae angen rhaglen barhaus o hyfforddiant, datblygiad, dysgu gan gyfoedion a chyfnewid gwybodaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd. Mae rhwydwaith y Cyswllt mewn sefyllfa dda i gefnogi ei aelodau ar y daith hon.

Bydd y Cyswllt yn sefydlu adran gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd ar ei lwyfan Basecamp, hefyd e-grŵp cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd, ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddiant. Mae llawer o gyfleoedd hyfforddiant eithaf rhesymol eu pris ar gael, ac fe all y Cyswllt dynnu sylw aelodau at y rhain.

Lle bod hynny'n bosibl, bydd y Cyswllt hefyd yn chwilio am nawdd ariannol y gellir ei ddefnyddio i gefnogi aelodau i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant perthnasol. Ein dymuniad yw sicrhau y bydd hwn yn ymrwymiad blynyddol, ond bydd yn dibynnu ar argaeledd arian at y pwrpas hwn.

Creu perthnasau gyda chymunedau

Nod y Cyswllt yw creu perthnasau gyda chymunedau amrywiol, rhannu profiad a gwybodaeth ein staff a'n haelodau, a datblygu cyfleoedd i ddysgu gan gymunedau eraill hefyd. Dyma broses tymor hir a bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i'w datblygu. Fel project cynnar, mae'r Cyswllt yn datblygu cynnig i greu cysylltiadau rhwng dwy adran wahanol o'r sector elusennol, er budd y naill a'r llall, drwy

ddatblygu perthynas ‘ffrind’ rhwng y Cyswllt a rhwydwaith a sefydlwyd yn ffurfiol yn ddiweddar, sy’n rhagweithiol ac yn llawn egni, ac yn gweithio’n angerddol tuag at gynhwysedd a chydraddoldeb i bobl sydd â syndrom Down (Grŵp Polisi Cenedlaethol Syndrom Down).

Byddai staff y Cyswllt yn ymateb i geisiadau am syniadau ac arweiniad gan Grŵp Polisi Cenedlaethol Syndrom Down, o ran gwahanol agweddau o weithredu rhwydwaith polisi llwyddiannus ac ymwneud â’r Llywodraeth, i sicrhau effaith bositif ar ddatblygiad polisi a deddfwriaeth yn y DU.

Fe all y syniadau a’r cyngor a gynigir gynnwys materion yn ymwneud â:

- Mecanweithiau cyfathrebu mewnol
- Prosesau effeithiol ar gyfer cytuno ar ddogfennau ar y cyd
- Cytundebau aelodaeth a phrotocol
- Polisïau ac ymarfer mewnol
- Gweithio gyda’r Llywodraeth i wella polisi a deddfwriaeth
- Gweithio datganoledig
- Cynigion ar ddarparu ysgrifenyddiaeth ar gyfer Grŵp Traws-Bleidiol

Yn eu tro, fe all cyrff sy’n ymwneud â Grŵp Polisi Cenedlaethol Syndrom Down roi’r cyrff sy’n aelodau o’r Cyswllt mewn cysylltiad â grwpiau sy’n lleol i’w safleoedd / gweithgareddau cadwraeth, gyda’r nod o annog y gymuned Syndrom Down i gymryd rhan mewn profiadau awyr agored newydd a gweithgareddau gwirfoddoli ac efallai ystyried cyfleoedd cyflogaeth yn y sector.

Crynodeb o Weithrediadau a Cherrig Milltir

Isod mae'r gweithrediadau a'r cerrig milltir y bydd y Cyswllt yn eu sicrhau ar y lefel uchaf dros y 12 mis nesaf. Cofnodir ein gweithrediadau mewn manylder mewn taenlen Excel, a fydd yn ddogfen fyw i ddilyn ein cynnydd dros yr ychydig o flynyddoedd nesaf.

Gweithred	**Cerrig Milltir**	**Canlyniad**
Adolygu a diweddaru prosesau a ffurflenni recriwtio	Mis Medi 2021	Ystod ehangach o gymunedau yn cael eu galluogi, eu cefnogi, a'u hannog i ymgeisio am ein swyddi.
Sefydu Grŵp Gwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd i gefnogi aelodau i ddysgu	Sefydlu erbyn Medi 2021 a chyfarfod pob 1-3 mis. Penderfynir pa mor aml y bydd y grŵp yn cyfarfod yng nghyfarfod cyntaf y grŵp.	Mannau dysgu gyda chyfoedion gan aelodau'r Cyswllt lle allan nhw barhau i ddysgu mwy am sut i wella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd o fewn eu cyrff.
Datblygu cynnig "rhwydwaith ffrindiau" gyda Grŵp Polisi Syndrom Down	O fis Medi 2021	Creu cysylltau a datblygu perthnasau gyda chymunedau ehangach.
Adolygu a diweddaru patrymluniau'r Cyswllt ar gyfer papurau polisi i wella hygyrchedd	Erbyn mis Hydref 2021	Sicrhau bod fformatau ar gyfer papurau'r Cyswllt mor hygyrch a chynhwysol i bob darllenydd â phosibl.
Datblygu proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb a defnyddio'r broses hon i adolygu ein polisïau a'n hymarferion yn rheolaidd	Mis Hydref 2021	Sicrhau bod polisïau ac ymarferion presennol y Cyswllt ac yn y dyfodol yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd

Adnabod opsiynau hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd rhesymol eu pris i'w hysbysu i aelodau'r Cyswllt	Erbyn mis Hydref 2021	Galluogi hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd parhaus ar gyfer aelodau'r Cyswllt pe na bai hi'n bosib sicrhau ariannu parhaus ar gyfer hyn.
Datblygu a mabwysiadu polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd ac adlewyrchu hyn yn ein polisïau a'n prosesau eraill	Mis Tachwedd 2021	Sicrhau bod dull y Cyswllt o fynd i'r afael â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd yn ddealladwy i staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr a bod hyn wrth wraidd ein polisïau eraill.
Adolygu polisïau llawlyfr staff gyda golwg fanwl ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd, yn cynnwys gweithio'n hyblyg a pholisïau hyfforddiant a datblygiad.	I gychwyn ym mis Tachwedd 2021	Pob polisi staff i hyrwyddo man gwaith cyfartal, amrywiol a chynhwysol sy'n rhoi ystyriaeth lawn i amgylchiadau ac anghenion gwahanol bobl
Adolygu hygyrchedd gwefan y Cyswllt a nodi'r newidiadau angenrheidiol ar gyfer gwella hygyrchedd	Erbyn mis Rhagfyr 2021	Sicrhau safon uchel o hygyrchedd i'n gwefan.
Recriwtio aelodau'r Bwrdd o gefndiroedd mwy amrywiol.	Erbyn mis Mawrth 2022	Sicrhau bod ystod ehangach o safbwyntiau yn cael eu hadlewyrchu ym mhrosesau a

		strwythurau rheolaethol y Cyswllt.
Adnabod a gwneud cais am arian ar gyfer hyfforddiant pellach i aelodau'r Cyswllt.	Eu cynnwys yn y rhan fwyaf o geisiadau ariannu yn 2020/2021 Cyllideb hyfforddiant eglur i'w amlinellu erbyn mis Ebrill 2022	Galluogi pob aelod o'r Cyswllt i gael mynediad at yr hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysedd sydd ei hangen arnyn nhw i barhau i wella eu cyrff/mudiadau, cydweithio gyda chyrff allanol a medrau staff.